DEDDF PLANT A PHOBL IFANC 1963, a. 37
Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968
Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygiadau Amrywiol) 1998
(Diwygio) (Cymru) 2007

Cais am Drwydded

(Sylwer— Mae'n bwysig fod y ffurflen hon, ar ôl iddi gael ei llenwi'n briodol, yn cael ei dychwelyd fel ei bod yn cyrraedd yr awdurdod trwyddedu **nid llai nag un diwrnod ar hugain** cyn y perfformiad cyntaf y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer, gan y gall yr awdurdod trwyddedu wrthod rhoi'r drwydded fel arall.)

Cais i: **Cyngor Sir Caerfyrddin**

RHAN I

(I'w llenwi gan y Cwmnïau Cynhyrchu)

1 Yr wyf trwy hyn yn gwneud cais am drwydded o dan adran 37 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 i awdurdodi *(rhowch enw'r plentyn)*

*(1) i gymryd rhan mewn perfformiadau ar y dyddiadau a nodwyd yn eitem 4(i) o'r Atodiad i'r Rhan hon.

*(2) i gymryd rhan mewn perfformiadau ar nifer y dyddiau ac yn ystod y cyfnod a nodir yn eitem 4(ii) o'r Atodiad i'r Rhan hon (a).

2. Yr wyf yn tystio hyd eithaf fy ngwybodaeth fod y manylion a nodwyd yn yr Atodiad i'r Rhan hon yn gywir.

3. Atodaf y canlynol:—

(a) tystysgrif geni'r plentyn neu dystiolaeth foddhaol arall o oedran y plentyn;

(b) dau ffotograff maint pasbort o'r plentyn a gafodd eu tynnu yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y cais hwn;

(c) copi o'r contract, y contract drafft neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys manylion y cytundeb a fydd yn rheoleiddio ymddangosiad y plentyn yn y perfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer;

**(d)* datganiad o dan adran 38(1) *(a)* neu *(b)* o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963;

(e) llythyr gan yr ysgol(ion) yn caniatáu'r absenoldeb.

(f) tystysgrif feddygol a roddwyd gan feddyg y cytunwyd arno/arni gan yr awdurdod.

(g) os gwneir cais am drwydded ar gyfer un ai gweithgaredd yn ymwneud â chwaraeon neu fodelu, datganiad gan riant y plentyn yn datgan bod y plentyn yn ddigon iach yn feddygol i ymgymryd â'r gweithgaredd arfaethedig.

4. Yr wyf yn deall y bydd y drwydded, os rhoddir trwydded imi, yn cael ei chaniatáu yn amodol ar y cyfyngiadau a'r amodau a bennwyd yn Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 ac ar unrhyw amodau eraill y bydd yr awdurdod lleol neu'r awdurdod trwyddedu yn eu gosod o dan y Rheoliadau hynny.

Llofnod: (Ymgeisydd) Dyddiad:
Teitl:
Enw Llawn: (Printiwch)
Cyfeiriad:
Rhif Ffôn: Cyfeiriad e-bost: (os yw'n berthnasol)

* Dileer yr amherthnasol

SYLWER – bydd unrhyw un
sy'n methu â chadw at unrhyw amod sydd ynghlwm wrth ganiatáu trwydded neu
sydd yn gwneud datganiad anwir, yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, mewn cais/mewn cysylltiad â chais am drwydded yn agored i ddirwy na fydd yn uwch na dirwy lefel 3 ar y Raddfa Safonol
† neu'n agored i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy na thri mis neu'n agored i'r ddau (adran 40 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963.

† (£1000 ar hyn o bryd, ond gellir ei addasu drwy Orchymyn

(a) Dim ond i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC), yr Awdurdod Darlledu Annibynnol (IBA), contractiwr rhaglenni yn ystyr adran 2(3) o Ddeddf Darlledu 1981 neu gorff sy'n cyflenwi rhaglenni i gontractiwr rhaglenni o'r fath i'w darlledu gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, neu mewn perthynas â phlentyn a fydd yn cymryd rhan mewn perfformiad

ATODIAD I RAN 1
MANYLION YN YMWNEUD Â'R PERFFORMIAD Y MAE'R PLENTYN I GYMRYD RHAN YNDDO

1) Enw a natur (a) y perfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer.	
2) Disgrifiad o'r rhan y mae'r plentyn i'w chwarae.	
3) Man cynnal y perfformiad y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer (b).	
4) Dyddiadau'r perfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer, neu Nifer y dyddiau a'r cyfnod y gwneir cais am i'r plentyn cael gymryd rhan mewn perfformiadau (c)	
5) Amser a hyd y perfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer.	
6) Amcangyfrif o'r hyd (h.y. amser) y bydd y plentyn yn ymddangos yn y perfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer	
7) Faint o waith gyda'r hwyr (os bydd unrhyw faint) y gwneir cais am ganiatâd i'r awdurdod lleol ar ei gyfer o dan Reoliad 30 o Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 gan nodi— *i.* amcangyfrif o nifer y dyddiau, *ii.* amcangyfrif o'r hyd (h.y. amser) ar bob dydd.	
8) Y symiau i'w hennill gan y plentyn am gymryd rhan yn y perfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer.	
9) Y trefniadau arfaethedig ar gyfer ymarferiadau a fydd yn cael eu cynnal yn ystod y pedwar diwrnod ar ddeg cyn y perfformiad cyntaf y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer, gan nodi'r canlynol ynghylch pob ymarfer— *i.* y dyddiad, *ii.* y man cynnal, *iii.* amcangyfrif o'r hyd (amser).	
10) Y diwrnodau neu'r hanner diwrnodau y gwneir cais am absenoldeb o'r ysgol er mwyn galluogi'r plentyn i gymryd rhan mewn ymarferiadau neu berfformiadau y gwneir cais am drwydded ar eu cyfer neu ymarferiadau.	
11) Y trefniadau arfaethedig (os oes rhai) o dan Reoliad 10 o Reoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 ar gyfer addysg y plentyn yn ystod y cyfnod y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer, gan nodi—	
i. Enw a chyfeiriad yr ysgol i'w mynychu, neu ii. (a) enw, cyfeiriad a chymhwyster yr athro preifat/athrawes breifat arfaethedig, *(b)* y man lle bydd y plentyn yn cael ei addysgu, *(c)* y cwrs astudio arfaethedig, *(d)* nifer y plant eraill a fydd yn cael eu haddysgu gan yr athro preifat/athrawes breifat ar yr un pryd â'r plentyn y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo, a rhyw ac oedran pob un o'r plant hynny, *(e)* a fydd y plentyn yn cael yr addysg ofynnol yn unol â Rheoliad 10(4)(a) neu Reoliad 10(4)*(b)*.	

(a) Natur y perfformiadau, e.e. theatr, ffilm, teledu ac ati.
(b) Mae hyn yn cynnwys y lleoedd lle bydd gwaith 'ar leoliad' yn cael ei wneud.
(c) (Dim ond i'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig (BBC), yr Awdurdod Darlledu Annibynnol (IBA), contractiwr rhaglenni yn ystyr adran 2(3) o Ddeddf Darlledu 1981 neu gorff sy'n cyflenwi rhaglenni i gontractiwr rhaglenni o'r fath i'w darlledu gan yr Awdurdod Darlledu Annibynnol, neu mewn perthynas â phlentyn a fydd yn cymryd rhan mewn perfformiad sydd i'w recordio (ym mha fodd bynnag) gyda golwg ar ei ddefnyddio mewn ffilm y bwriedir ei harddangos yn gyhoeddus, y gellir rhoi trwydded sy'n pennu nifer y dyddiau y caiff plentyn berfformio a'r cyfnod, heb fod yn hwy na chwe mis, y gellir cynnal y perfformiadau.

12. Enw'r awdurdod lleol (os oes un) sydd eisoes wedi cymeradwyo penodi'r athro preifat/athrawes breifat yng nghyswllt trwydded.	
13. Enw, cyfeiriad a disgrifiad o'r fetron arfaethedig.	
14. Enw'r awdurdod lleol (os oes un) sydd eisoes wedi cymeradwyo penodi'r fetron yng nghyswllt trwydded.	
15. Nifer y plant eraill y bydd y fetron â gofal amdanynt yn ystod yr adeg pryd y bydd hi â gofal am y plentyn y gwneir y cais hwn mewn perthynas ag ef/hi, a rhyw ac oedran pob un o'r plant hynny.	
16. Cyfeiriad y llety lle bydd y plentyn yn byw os rhoddir trwydded sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r plentyn fyw mewn rhywle gwahanol i'r man lle byddai'n byw fel arall, enw'r preswylydd a nifer y plant eraill a fydd yn byw yn yr un llety.	
17. Amcangyfrif o'r amser y bydd y plentyn yn ei dreulio yn teithio — (a) i'r man lle cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer, *(b)* o'r man lle cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer, a'r trefniadau cludiant (os oes rhai) (c) i'r man lle cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer. *(d)* o'r man lle cynhelir y perfformiad neu'r ymarfer.	
18. Enw unrhyw awdurdod trwyddedu arall y gwnaed cais iddo am ganiatâd i blentyn arall gymryd rhan mewn perfformiadau y mae'r cais hwn yn berthnasol iddo.	
19. Os yw'r cais yn un am drwydded ar gyfer gweithgaredd yn ymwneud â chwaraeon neu fodelu, mae'n rhaid cael datganiad gan riant y plentyn yn datgan bod y plentyn yn ddigon iach yn feddygol i ymgymryd â'r gweithgaredd arfaethedig.	
20. Copi o'r polisi/polisïau Amddiffyn Plant y bydd yr ymgeisydd yn eu gweithredu.	

RHAN II

(I'w llenwi gan riant)

(Sylwer — Yma, mae'r term 'Rhiant' yn cynnwys gwarcheidwad neu rywun arall sydd am y tro â gofal am y plentyn neu â rheolaeth dros y plentyn.)

Rhowch y manylion canlynol: —

1. Enw llawn y plentyn.	
2. Dyddiad geni'r plentyn.	
3. Cyfeiriad y plentyn.	
4. Enwau a chyfeiriadau'r ysgolion y mae'r plentyn wedi eu mynychu yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais hwn neu, os nad yw wedi mynychu ysgol, enw a chyfeiriad ei athro preifat/athrawes breifat.	
5. Manylion pob trwydded y mae unrhyw awdurdod lleol ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y gwneir y cais hwn iddo, wedi ei rhoi yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais hwn, gan nodi ym mhob achos – (i) enw'r awdurdod lleol. (ii) dyddiad caniatáu'r drwydded. (iii) dyddiadau a natur y perfformiadau.	
6. Manylion pob cais am drwydded a wnaed yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais hwn ac a wrthodwyd gan unrhyw awdurdod lleol ac eithrio'r awdurdod trwyddedu y gwneir y cais hwn iddo, gan nodi ym mhob achos – (i) enw'r awdurdod lleol. (ii) dyddiad y cais. (iii) y rhesymau (os ydynt yn hysbys) dros wrthod caniatáu trwydded.	
7. Manylion pob perfformiad nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar ei gyfer ac yr oedd y plentyn wedi cymryd rhan ynddo yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais hwn, gan nodi ym mhob achos – (i) y dyddiad. (ii) y man cynnal. (iii) natur y perfformiad. (iv) enw'r un a oedd yn gyfrifol am gynhyrchu'r perfformiad y bu'r plentyn yn cymryd rhan ynddo.	
8. Y dyddiadau (os oes rhai) pryd y bu'r plentyn yn absennol o'r ysgol yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais hwn oherwydd ei fod ef/hi yn cymryd rhan mewn perfformiad.	
9. Manylion unrhyw fath o gyflogaeth arall y mae'r Plentyn wedi ei gyflogi i ymgymryd ag ef yn ystod yr wyth niwrnod ar hugain cyn diwrnod y perfformiad cyntaf y gwneir cais am drwydded ar ei gyfer, gan nodi	

(i) natur y gyflogaeth. (ii) y dyddiau y mae'r plentyn yn gyflogedig. (iii) yr amserau pryd y mae'r plentyn yn gyflogedig.	
10. Manylion am y symiau a enillodd y plentyn yn ystod y deuddeng mis cyn dyddiad y cais hwn, gan nodi – (i) a enillwyd y symiau am berfformiadau y rhoddwyd trwydded ar eu cyfer, am berfformiadau nad oedd yn ofynnol cael trwydded ar eu cyfer neu am fathau eraill o gyflogaeth. (ii) y symiau a enillwyd. (iii) y dyddiad y cafwyd y taliad. (iv) enw, cyfeiriad a disgrifiad o'r un y cafwyd taliad ganddo.	

Yr wyf yn cefnogi'r cais hwn am drwydded.

Yr wyf yn tystio hyd eithaf fy ngwybodaeth fod y manylion a nodwyd uchod yn gywir ac yr wyf yn deall y bydd trwydded, os caiff ei rhoi, yn amodol ar y cyfyngiadau a'r amodau a bennwyd yn Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 ac ar unrhyw amodau eraill y mae'r awdurdod lleol neu'r awdurdod trwyddedu yn eu gosod o dan y Rheoliadau a enwyd.

Dyddiad:…… Llofnodwyd…….. (Ymgeisydd)

Enw llawn (Printiwch)

Cyfeiriad:

Rhif Ffôn:

Sut yr ydych yn perthyn i'r plentyn:*

SYLWER – bydd unrhyw un sy'n methu â chadw at unrhyw amod sydd ynghlwm wrth ganiatáu trwydded neu sydd yn gwneud datganiad anwir, yn ymwybodol neu'n fyrbwyll, mewn cais/mewn cysylltiad â chais am drwydded yn agored i ddirwy na fydd yn uwch na dirwy lefel 3 ar y Raddfa Safonol † neu'n agored i'w garcharu am gyfnod na fydd yn hwy thri mis neu'n agored i'r ddau (adran 40 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963).

* Nodwch ai rhiant, gwarcheidwad neu rywun arall ydych sydd am y tro â gofal am y plentyn neu â rheolaeth dros y plentyn.)† (£1000 ar hyn o bryd, ond gellir ei addasu drwy Orchymyn

AR ÔL EU LLANW, A FYDDECH CYSTAL Â DYCHWELYD Y FFURFLENNI I'R ADAIN LLES ADDYSG, YR ADRAN ADDYSG A PHLANT, ADEILAD 2, PARC DEWI SANT, HEOL FFYNNON JOB, CAERFYRDDIN SA31 3HB